**LC187**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno pwerau i arolygwyr ac awdurdodau lleol gyfyngu mynediad i dir amaethyddol a thir arall, gan gynnwys mynediad drwy gyfrwng hawliau tramwy cyhoeddus heblaw hawliau cerbydau.

Gwneir hyn drwy ddiwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983. I Gymru yn unig y mae'r Gorchymyn diwygio yn gymwys, ond mae'n cael ei wneud gan y Cynulliad ar y cyd â'r Gweinidog Amaethyddiaeth am fod y trosglwyddiad swyddogaethau i'r Cynulliad wedi cadw'r gofyniad ynghylch cymryd camau ar y cyd a geir yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nid yw'r Gorchymyn wedi'i wneud yn ddwyieithog am fod yr amser byr a oedd ar gael i'w baratoi yn golygu bod hynny'n anymarferol. Er hynny, deellir y bydd cyfieithiad yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 23.13. Fe fyddai offeryn o'r math hwn, sy'n cael ei wneud ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron, fel rheol yn dod o dan Adran 3 o Reol Sefydlog 23 ond nid yw wedi gwneud yn yr achos hwn am nad yw gorchmynion o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid yn ddarostyngedig i Weithdrefn Seneddol.

Cyfeiriad at y Gweinidog Amaethyddiaeth yw'r cyfeiriad at y “Minister” yn yr Erthygl 35B(2) sy'n cael ei mewnosod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw swyddogaethau'r “Minister” o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (o'u cyferbynnu â swyddogaethau “the Ministers” a “the appropriate Minister”) wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad.

Mae Gorchmynion i'r un perwyl, a chyda'r un ddarpariaeth ar gyfer dod â hwy i rym, wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr a'r Alban.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**M Bates AC**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

13 Mawrth 2001